***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 483

## Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2003

### Enwi, cymhwyso, cychwyn a dod i ben

**1.** Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2003; mae'n gymwys mewn perthynas â Chymru, mae'n dod i rym ar 4 Mawrth a bydd ei effaith yn dod i ben ar 1 Awst 2003.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "anifeiliaid" ("*animals*") yw gwartheg (ac eithrio buail a iacod), ceirw, geifr, moch a defaid;

ystyr "canolfan gasglu" ("*collecting centre*") yw safle a ddefnyddir ar gyfer derbyn, yn y tymor byr, anifeiliaid y bwriedir eu symud i rywle arall (ond nid yw'n cynnwys marchnad neu rywle arall a ddefnyddir ar gyfer gwerthiant neu fasnach anifeiliaid oni fwriedir i'r holl anifeiliaid sydd yno gael eu cigydda yn syth);

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw unrhyw berson sydd â gofal a rheolaeth dros anifeiliaid, hyd yn oed dros dro ac, at ddibenion erthygl 8(2)(a) mae'n cynnwys unrhyw berson sy'n cludo'r anifeiliaid;

ystyr "cyfnod segur" ("*standstill period*") yw cyfnod pan na cheir symud anifeiliaid oddi ar safle oherwydd darpariaethau erthygl 3(1)(b);

mae i "grŵp meddiannaeth unigol" ("*sole occupancy group*") yr ystyr a briodolir iddo gan erthygl 5;

mae i "lladd-dy" yr ystyr a roddir i "*slaughterhouse*" yn Rheoliadau Cig Ffres (Hylendid ac Archwilio) 1995(**1**);

ystyr "milfeddyg" ("*veterinary surgeon*") yw cymrawd neu aelod o Goleg Brenhinol y Milfeddygon;

mae "safle" ("*premises*") yn cynnwys tir ag adeiladau neu dir hebddynt;

mae "tir" ("*land*") yn cynnwys tir comin neu dir heb ei amgáu; ac

yn achos geifr mae "trinaieth filfeddygol" ("*veterinary treatment*") yn cynnwys casglu semen.

### Cyfyngiadau ar symud anifeiliaid

**3.**—(1) Mae gwaharddiad ar symud anifail o unrhyw safle—

(a) oni symudir yr anifail o dan awdurdod trwydded a ddyroddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu arolygydd; a

(b) ond nid os na symudwyd defaid, geifr neu wartheg i'r safle hwnnw yn ystod y 6 diwrnod blaenorol, ac os na symudwyd moch i'r safle hwnnw yn ystod yr 20 diwrnod blaenorol ("y cyfnod segur").

(**1**) O.S. 1995/539 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2002/129 (Cy.17).

(2) Er gwaethaf paragraff (1), ceir symud anifeiliaid o'r safle yn ystod y cyfnod segur—

(a) os yw'r symud yn un a bennir yn Atodlen 1, neu

(b) os dyroddwyd trwydded sy'n datgymhwyso'r cyfnod segur gan arolygydd milfeddygol.

(3) Ni chaiff y cyfnod segur ei sbarduno gan symud anifail i safle os yw'r symud yn un a bennir yn Atodlen 2.

(4) Nid yw'r gofyniad am drwydded ym mharagraff (1)(a) yn gymwys i unrhyw symud a awdurdodir gan drwydded o dan erthygl 10 o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro ) (Cymru) (Rhif 2) 2002(**2**) (trwyddedau'n ymwneud â moch anwes).

(5) Nid yw gofynion paragraff (1) yn gymwys i symud—

(a) sydd wedi'i drwyddedu gan drwydded a roddwyd o dan Orchymyn Clwy'r Traed a'r Genau 1983(**3**), neu

(b) i unrhyw sŵ a drwyddedwyd o dan Ddeddf Trwyddedu Swau 1981 neu oddi yno (**4**).

### Cyfyngiadau ar symud anifeiliaid i ladd-dy ac oddi yno

**4.** Gwaherddir i unrhyw berson—

(a) symud unrhyw anifail i ladd-dy ac eithrio at ddibenion ei gigydda o fewn 48 awr iddo gyrraedd yno; neu

(b) derbyn unrhyw anifail o ladd-dy oni wneir hynny, yn achos unrhyw anifail heblaw mochyn, o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol.

### Grwpiau meddiannaeth unigol

**5.** Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol awdurdodi setiau o safleoedd i fod yn grwpiau meddiannaeth unigol os yw'r naill neu'r llall wedi'i fodloni bod y safleoedd yn gysylltiedig â'i gilydd o ran eu rheolaeth.

### Trwyddedau, caniatadau ac awdurdodiadau

**6.**—(1) Rhaid i unrhyw drwydded, caniatâd, neu awdurdodiad o dan y Gorchymyn hwn fod yn ysgrifenedig, caiff fod yn gyffredinol neu'n benodol, yn ddarostyngedig i amodau, a gellir ei amrywio, ei atal neu ei ddirymu drwy hysbysiad ysgrifenedig unrhyw bryd—

(a) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol, yn achos trwydded, caniatâd neu awdurdodiad a ddyroddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol neu arolygydd o unrhyw fath;

(b) gan arolygydd milfeddygol, yn achos trwydded neu ganiatâd a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol neu unrhyw un o arolygwyr eraill yr Ysgrifennydd Gwladol;

(c) gan un o arolygwyr yr Ysgrifennydd Gwladol (ac eithrio arolygydd milfeddygol), yn achos trwydded a ddyroddwyd gan unrhyw arolygydd o'r fath; neu

(ch) gan un o arolygwyr awdurdod lleol, yn achos trwydded a ddyroddwyd gan un o arolygwyr yr awdurdod lleol hwnnw.

(2) Wrth benderfynu pa un ai i ddyroddi trwydded o dan erthygl 3(1)(a) neu ganiatâd o dan erthygl 3(2) mae'n rhaid i arolygydd neu arolygydd milfeddygol gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

---

(**2**) O.S. 2002/2303 (Cy.228) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/170 (Cy.30).
(**3**) O.S. 1983/1950 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2001/4029.
(**4**) 1981 p.37.

### Trwyddedau a ddyroddir yn yr Alban neu yn Lloegr

**7.** Bydd trwydded a ddyroddir gan yr awdurdod cymwys yn yr Alban neu yn Lloegr at ddibenion symud anifeiliaid yn weithredol yng Nghymru fel pe buasai wedi'i dyroddi o dan y Gorchymyn hwn.

### Hysbysiadau sy'n gwahardd symud o dan y drwydded gyffredinol

**8.**—(1) Pan fo trwydded gyffredinol wedi'i dyroddi o dan erthygl 3(1)(a), caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi hysbysiad yn gwahardd—

(a) symud o dan awdurdod y drwydded honno unrhyw anifail o unrhyw safle a bennir yn yr hysbysiad; neu

(b) unrhyw berson a bennir yn yr hysbysiad rhag symud anifeiliaid o dan awdurdod y drwydded honno naill ai'n gyffredinol neu i unrhyw safle a bennir yn yr hysbysiad neu oddi yno.

(2) Ni chaiff hysbysiad ei gyhoeddi o dan baragraff (1) ond ar gyngor arolygydd, y mae'n rhaid iddo fod o'r farn—

(a) na chydymffurfiwyd â darpariaethau'r Gorchymyn hwn neu'r drwydded gyffredinol mewn perthynas ag anifeiliaid a symudwyd i'r safle dan sylw neu oddi yno, neu mewn perthynas â symud unrhyw anifeiliaid eraill, os y person y mae'r hysbysiad i'w gyflwyno iddo yw ceidwad yr anifeiliaid hynny neu os bu'n geidwad yr anifeiliaid hynny ar unrhyw adeg, a

(b) bod angen cyflwyno hysbysiad i atal y posibilrwydd y bydd clefydau yn lledaenu.

(3) Bydd hysbysiad a ddyroddwyd o dan baragraff (1)(a) yn cael ei gyflwyno i feddiannydd pob un o'r safleoedd a bennir yn yr hysbysiad ac mewn unrhyw ddull arall y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn tybio ei bod yn briodol dwyn yr hysbysiad i sylw'r personau y mae'r hysbysiad yn effeithio arnynt.

(4) Caiff hysbysiad a gyhoeddir o dan baragraff (1)(b) ei gyflwyno i'r person a gaiff ei wahardd gan yr hysbysiad rhag symud anifeiliaid ac ar feddiannydd unrhyw safle a enwir wrth ei enw yn yr hysbysiad.

(5) Bydd hysbysiad yn ysgrifenedig, a chaiff fod yn ddarostyngedig i amodau a chaiff ei ddiwygio, ei atal dros dro, neu ei ddirymu ar unrhyw adeg gan hysbysiad arall gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

### Trwyddedau penodol

**9.**—(1) O ran anifail a symudir o dan drwydded benodol—

(a) rhaid iddo gael ei symud ar hyd y llwybr mwyaf uniongyrchol sydd ar gael i'r gyrchfan a bennir yn y drwydded, a

(b) rhaid i'r drwydded fynd gydag ef ar hyd y daith.

(2) Rhaid i'r person sy'n gyfrifol am unrhyw anifail a symudir o dan drwydded arbennig, os myn cwnstabl neu arolygydd neu unrhyw un arall o swyddogion yr Ysgrifennydd Gwladol neu awdurdod lleol hynny—

(a) dangos y drwydded;

(b) caniatáu i gopi ohoni neu o ddarn ohoni gael ei wneud; ac

(c) os gofynnir hynny iddo, roi ei enw a'i gyfeiriad.

(3) Rhaid i bob anifail a symudir o dan awdurdod trwydded o dan y Gorchymyn hwn gael ei gadw ar wahân i unrhyw anifail nas symudir o dan awdurdod y drwydded honno, a hynny drwy gydol y symud.

(4) Pan symudir anifeiliaid o dan drwydded benodol, yna, onid yw'r drwydded yn darparu fel arall, rhaid i feddiannydd y safle y symudir hwy iddo—

(a) sicrhau y rhoddir y drwydded iddo ef neu i'w gynrychiolydd cyn caniatáu i'r anifeiliaid gael eu dadlwytho; a

(b) cadw'r drwydded am chwe mis a'i dangos i arolygydd os gofynnir am ei gweld.

**Trwyddedau cyffredinol**

**10.** Pan symudir anifeiliaid o dan drwydded gyffredinol sy'n ei gwneud yn ofynnol bod gan y person sy'n symud yr anifeiliaid ddogfen symud, rhaid i feddiannydd y safle y symudir hwy iddo—

(a) sicrhau y rhoddir iddo ef neu i'w gynrychiolydd y copi uchaf o'r ddogfen symud cyn caniatáu dadlwytho'r anifeiliaid;

(b) llenwi'r copi uchaf i ddangos ei fod ef wedi cael yr anifeiliaid, llofnodi'r copi, a'i anfon i'r awdurdod lleol yn ddi-oed; ac

(c) ar ôl ei llenwi cadw copi o'r ddogfen am chwe mis.

**Copïau o drwyddedau**

**11.** Pan fydd arolygydd awdurdod lleol yn dyroddi trwydded o dan erthygl 3(1)(a), rhaid iddo gadw copi o'r drwydded am chwe mis.

**Cydymffurfio â thrwyddedau, ac yn y blaen.**

**12.** Os bydd unrhyw berson yn methu cydymffurfio â thrwydded, caniatâd, awdurdodiad neu hysbysiad a ddyroddir o dan y Gorchymyn hwn caiff un o swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol, neu arolygydd, drefnu y cydymffurfir ag ef a hynny ar draul y person sy'n methu cydymffurfio.

**Glanhau a diheintio**

**13.**—(1) Caiff trwydded a ddyroddir o dan erthygl 3(1)(a), caniatâd a ddyroddir o dan erthygl 3(2), neu awdurdodiad o dan erthygl 5, bennu gofynion o ran y gwaith o lanhau a diheintio unrhyw gyfrwng cludo a ddefnyddir ar gyfer symud anifeiliaid ac sy'n ychwanegol at ofynion Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) 2003(**5**).

(2) Rhaid i'r person sy'n gyfrifol am symud anifeiliaid sicrhau, ac eithrio pan fo'r drwydded, yr awdurdodaeth neu'r caniatâd yn darparu fel arall, y cydymffurfir â'r gofynion sy'n berthnasol i'r gwaith o lanhau a diheintio a hynny cyn gynted â phosibl ar ôl dadlwytho'r anifeiliaid a, beth bynnag, cyn symud y cyfrwng cludo o'r safle y symudwyd yr anifeiliaid iddo.

(3) Pan symudir anifeiliaid o dan drwydded, rhaid i feddiannydd y safle y symudir hwynt iddo ddarparu cyfleusterau, cyfarpar a deunyddiau digonol ar gyfer unrhyw waith glanhau a diheintio sy'n ofynnol o dan y drwydded.

**Newid meddiannaeth safleoedd**

**14.**—(1) Os, pan fydd ei hawl meddiannaeth dros unrhyw safle yn dod i ben, bydd perchennog unrhyw anifail ar y safle hwnnw yn methu ei symud o'r safle hwnnw oherwydd unrhyw gyfyngiad a osodir gan y Gorchymyn hwn neu oddi tano, mae'n rhaid i'r person sydd â'r hawl i feddiannu'r safle hwnnw—

(**5**) O.S. 2003/482 (Cy.68).

(a) rhoi i berchennog yr anifail hwnnw ac unrhyw berson a awdurdodir ganddo i'r pwrpas, yr holl gyfleusterau hynny y gallai'r perchennog yn rhesymol ofyn amdanynt ac a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer bwydo, tendio neu ddefnyddio'r anifail hwnnw mewn ffordd arall (gan gynnwys ei werthu); neu

(b) pan nad yw perchennog yr anifail hwnnw'n gallu manteisio ar y cyfleusterau hynny, cymryd yr holl gamau o'r fath y gallai fod eu hangen i sicrhau bod yr anifail yn cael ei fwydo, ei dendio a'i gadw'n iawn.

(2) Bydd darpariaethau paragraff (1) yn dal i fod yn gymwys hyd nes bydd cyfnod o 7 diwrnod wedi mynd heibio ers y dyddiad y bydd unrhyw gyfyngiadau ar symud yr anifail o'r safle yn peidio â bod yn gymwys, ac mae perchennog yr anifail yn atebol am dalu i'r person sy'n darparu unrhyw gyfleusterau neu borthiant, sy'n tendio neu fel arall yn cadw'r anifeiliaid, yn unol â'r darpariaethau hynny, y symiau hynny, yn dâl ac yn ad-daliad o dreuliau, ag a allai fod yn gyfiawn ac yn rhesymol yn yr holl amgylchiadau.

**Gorfodi**

**15.** Mae'r Gorchymyn hwn i gael ei orfodi gan yr awdurdod lleol neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Dirymu**

**16.** Dirymir y canlynol—

(a) Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002(**6**);

(b) Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro)(Cymru)(Rhif 2) (Diwygio) 2002(**7**);

(c) Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2003(**8**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*D.Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

3 Mawrth 2003

*Whitty*
Is-ysgrifennydd Seneddol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

3 Mawrth 2003

(**6**) O.S. 2002/2304 (Cy.229).
(**7**) O.S. 2002/2480 (Cy.243).
(**8**) O. S. 2003/168 (Cy.28).